

To: Y Gwir Anrhydeddus  
Thérèse Coffey AS

Ysgrifennydd Gwladol  
Gwaith a Phensiynau

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Fel Comisiynwyr Plant statudol yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, rydym ni'n gyfrifol am ddiogelu hawliau ac anghenion plant yn ein gwledydd unigol. Rydym ni'n ysgrifennu heddiw i fynegi ein pryderon am effaith negyddol barhaus y terfyn dau blentyn ar gredyd treth plant a chredyd cynhwysol, ac i'ch annog i wdroi'r polisi hwn.

### Trwy ebost yn unig

21 Mai 2021

Mae pandemig Covid wedi amlygu'r sefyllfa wirioneddol i blant sy'n byw mewn tldi, ac ar draws y gwledydd datganoledig rydym wedi adnewyddu'n penderfyniad i roi mesurau ar waith fydd yn dileu tldi plant. Mae etholiadau cenedlaethol yn yr Alban a Chymru ym mis Mai 2021 wedi ailfywiogi trafodaeth gyhoeddus ar flaenoriaethau ac addewidion maniffesto amrywiol bleidiau gwleidyddol. Testun allweddol o ddiddordeb i bawb ohonom yn ystod etholiadau 2021 fu mynd i'r afael â phroblem barhaus tldi plant.

Yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon bu ein gwahanol lywodraethau yn cymryd camau i liniaru effaith y pandemig ar blant sy'n byw mewn tldi. Roedd hynny'n cynnwys gweithredu i ddarparu taliadau neu nwyddau yn lle prydu ysgol am ddim tra bod plant yn methu mynd i'r ysgol, ac estyn y rhain i gwmpasu cyfnodau gwyliau'r ysgol. Trwy ddsbarthu dyfeisiau a data llwyddwyd i gau'r bwlch digidol i ryw raddau. Yn yr Alban, aeth y bwriad i weithredu Taliad Plant yr Alban yn ei flaen yn ystod y pandemig.

Er ein bod ni'n croesawu'r camau cadarnhaol hyn, rydym ni'n dal i ddisgwyl i'n llywodraethau unigol wneud mwy i leihau tldi plant, gan ddefnyddio'u pwerau datganoledig. Fodd bynnag, cyfyngir ar y rheiny gan effaith system trethi a budd-daliadau'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mae amrywiol faniffestos gan bleidiau yn etholiadau Senedd yr Alban a Senedd Cymru yn dangos y bydd camau'n cael eu cymryd yn y gwledydd datganoledig i fynd i'r afael â thldi plant, ac mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu strategaeth Gwrthtldi i'r boblogaeth gyfan yng Ngogledd Iwerddon, fel rhan o fargen Degawd Newydd a Dull Gweithredu Newydd. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith bod unrhyw gamau o'r fath yn y pen draw yn cael eu tansilio gan barhad y terfyn niweidiol o ddau blentyn ar gredyd treth plant a thaliadau credyd cynhwysol ar lefel llywodraeth y Deyrnas Unedig.



Tŷ Ystumllwynarth/Oytermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru  
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**  
**childrenscommissioner.wales**

Mae'r polisi hwn yn enghraifft amlwg o dorri hawliau dynol plant, gan gynnwys yr hawl i safon byw sy'n ddigonol. Ni ddylid cosbi plant am gamau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, a byddai newid ffocws polisi budd-daliadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r un hawliau i bob plentyn dderbyn cefnogaeth y wladwriaeth, beth bynnag yw amgylchiadau eu teulu, yn gam pwysig at leihau'r effaith ar dlodi plant ar hyn o bryd ac fel y rhagwelir.

Mewn adroddiad gan Gomisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2020 i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn<sup>1</sup>, amlygwyd unwaith yn rhagor bryderon ynghylch effaith negyddol y cap ar fudd-daliadau a'r terfyn dau blentyn, a chyfeiriwyd yn ogystal at yr asesiad damniol o'r polisi hwn yn y Deyrnas Unedig gan Rapporteur Arbennig y CU ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol.

Bydd y Pwyllgor yn archwilio cynnydd y Deyrnas Unedig yn 2022 o ran cyflawni a hybu hawliau plant, ac maent i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r Rhestr o Faterion Cyn Adrodd<sup>2</sup> ym mis Chwefror 2022. Bydd angen penodol iddyn nhw gyflwyno'r mesurau a roddwyd ar waith i roi sylw i gyfradd gynyddol tlodi plant; ac asesu effaith mesurau diweddar i ddiwygio nawdd cymdeithasol a chredyd treth ar blant, gan gynnwys plant ag anableddau a phlant sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol, ac addasu'r diwygiadau hyn er mwyn parchu'n llawn hawl plant i sicrhau bod eu lles pennaf yn brif ystyriaeth.

Ond ni all plant a theuluoedd aros tan 2022 neu'n hwyrach i weld gweithredu ar y polisi hwn.

Mae papur diweddar a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn amcangyfrif, bedair blynedd ers ei gyflwyno, bod polisi'r terfyn o ddau blentyn wedi effeithio ar o leiaf 350,000 o deuluoedd ac 1.25 miliwn o blant<sup>3</sup>. Bydd y nifer hwn yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod y polisi'n berthnasol i blant a anwyd ar ôl 6 Ebrill 2017. Mae tystiolaeth hefyd o effaith anghymesur ar fenywod fel aelwydydd un rhiant, ar bobl o gefndiroedd crefyddol neu ethnig leiafrifol penodol, ac ar blant yng Ngogledd Iwerddon, lle mae teuluoedd yn fwy na chyfartaledd y Deyrnas Unedig<sup>4</sup>. Mae CPAG wedi amcangyfrif, petai'r polisi'n dod i ben heddiw, 'y byddai 200,000 o blant yn cael eu codi allan o dlodi ar unwaith, a byddai 600,000 o blant yn byw mewn tlodi llai dwfn, a hynny am gost o £1 biliwn yn unig'.

---

<sup>1</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/UN-report-2020-examination-.pdf>

<sup>2</sup>

[https://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fQPR%2f6-7&Lang=en](https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2fC%2fGBR%2fQPR%2f6-7&Lang=en)


<sup>3</sup>

[https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/It\\_feels\\_as\\_though\\_my\\_third\\_child\\_doesnt\\_matter.pdf](https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/It_feels_as_though_my_third_child_doesnt_matter.pdf)

<sup>4</sup> <https://publications.parliament.uk/pa/cm201919/cmselect/cmworpen/51/51.pdf>



I roi enghraifft o un wlad yn unig<sup>5</sup>, mae'r data diweddaraf ar dlodi plant yng Nghymru, a seiliwyd ar Gyfres Ddata newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Aelwydydd sydd o dan yr Incwm Cyfartalog, yn dangos yn boenus o amlwg bod cyfraddau tlodi plant yn codi gyflymaf ar aelwydydd lle mae 3+ o blant, a bod y bwlch tlodi rhwng aelwydydd mawr a bach yn tyfu:



Byddwn ni'n parhau i alw ein llywodraethau datganoledig i gyfrif mewn perthynas â'r rhwymedigethau sydd arnynt i barchu, diogelu a chyflawni hawliau plant, ond dim ond rywfaint o'r ffordd y gall y llywodraethau hyn deithio yn eu hymdrechion i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn, tra bod y polisi camwahaniaethol hwn yn dal mewn grym ar lefel y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi croesawu'r cynnydd o £20 yn symiau credyd cynhwysol yn ystod pandemig Covid, ac yn ein barn ni, dylai hynny barhau, ond mae angen mynd ati ar frys i roi ystyriaeth fwy gwaelodol i'r fframwaith polisi sy'n effeithio ar y teuluoedd hyn. Mae'r cap ar fudd-daliadau lles a'r terfyn o ddau blentyn sydd mewn grym ar hyn o bryd yn cael effaith anghyfartal ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ac mae'n anghyson â'r ymrwymiadau a wnaed gan y Deyrnas Unedig wrth gadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Nid dyma'r tro cyntaf i'n swyddfeydd godi pryderon am y polisiau<sup>6</sup> hyn ar y cyd, ond ni chyflwynwyd newid parhaol. Yn sgîl ffocws araith y Frenhines ym mis Mai 2021 ar 'godi lefel', ni ellir esgusodi parhau i dorri hawliau plant trwy'r

<sup>5</sup> Graff heb ei gyhoeddi a ddatblygwyd gan CPAG, yn defnyddio data o <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-numberofchildreninthehousehold>

<sup>6</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/2017/11/uk-childrens-commissioners-joint-letter-chancellor/>

polisi camwahanïaethol hwn a fydd yn parhau i niweidio plant a theuluoedd, a'u hatal rhag symud heibio i effaith y pandemig byd-eang.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb, a byddem ni'n croesawu cyfle i gyfarfod â chi i drafod y materion hyn.


Yn gywir,



Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru  
Children's Commissioner for Wales



Bruce Adamson  
Children & Young People's  
Commissioner Scotland



Koulla Yiasouma

NI Commissioner for Children and Young People



Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a gwladau a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi | We welcome receiving correspondence and calls in Welsh. We will respond to correspondence and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not lead to delay.